



Delfryn
Llwynpiod
Llangeitho
Tregaron
Ceredigion
SY25 6TA

Ffôn/Tel: 01974 298 367
Ffacs/Fax: 01974 298 089
E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk
Ffôn symudol/mobile: 07929 970 547

CYFARFOD CYNGOR TREF TREGARON NOS WENER/FRIDAY 16.11.2018
@ 7.00 yh/pm YN Y NEUADD GOFFA/IN THE MEMORIAL HALL

COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2018
MINUTES OF NOVEMBER 2018 MEETING

1. **CROESO / WELCOME**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol. *Chairman welcomed everyone to the monthly meeting.*

PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Gwilym Jenkins, (Cadeirydd/Chair), Cyng/Cllr Catherine Hughes, David Bennett, Ann Jones, Arwel Jones & Cyng Alun Owen

2. **YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES:** Cyng Karine Davies, Manon Wyn James, June Owens, Gary Rees & Cyng Rhydian Wilson & PCSO John Evans.

3. **MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS**

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

4. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

Neb / *Nobody*

5. **CADARNHAU COFNODION / CONFIRM MINUTES – 12.10.2018**

Cynnig / *Proposer:* Cyng Alun Owen

Eilio / *Seconded:* Cyng Arwel Jones

6. **MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES**

6.1 Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth Cyng Rhydian Wilson cyn iddo ymddiheuro am ei absenoldeb. Cadarnhad wedi'u dderbyn byddai'r twnel wedi'u drwsio a'i roi nol yn iawn erbyn y cyfarfod nesaf. Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth gwmni aswiriant y Cyngor Tref bod lan hyd 10 gwirfoddolwr i weithio ar y parc yn iawn o dan y polisi aswiriant. Bydd angen gwneud asesiad risg ar y parc cyn dechrau ar unrhyw fath o waith gwirfoddoli.

Received a verbal report from Cllr Rhydian Wilson before accepting his apologies of absence from the meeting. Reassurance was given that the necessary works on the tunnel in the park would be completed by the next meeting. Confirmation was also received from the Zurich Insurance that up to 10 volunteers could be covered under the Insurance policy so long as a risk assessment was carried out prior to any works done on the children's play area.

6.2 Cyng Catherine Hughes dal yn disgwyl cadarnhad am ddyddiad am gyfarfod oddi wrth Lewis Baron cyn parhau a thrafodaethau gyda Mr Eifion Davies a oedd yn fodlon cynorthwyo efo'r gwaith o gynrychiolydd cynllun llifogydd cymunedol ac i fod yn bwynt cyswllt efo Cyfoedd Naturiol Cymru. Angen i Cyng Catherine Hughes sicio pwy sy'n gyfrifol am ddsbarthu'r rhybudd am y llifogydd

Cllr Catherine Hughes still awaiting dates for a meeting with Lewis Baron before continuing with the discussions with Mr Eifion Davies who was willing to assist with the community flood plans and be a nominated point of contact with Natural Resources for Wales. Cllr Catherine Hughes to check who is responsible for announcing the warnings of the floods.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

- 6.3 Mr Tom Jones, perchennog y clawdd lawr o Catllyrion, Blaencaron lawr i Llainfflur wedi torri'r clawdd.
Mr Tom Jones, the owner of the hedge leading down from Catllyrion, Blaencaeron down to Llainfflur has cut the hedge.
- 6.4 Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol oddi wrth prosiect Gofal Fferm Clynfyw Care Farm a soniwyd bod angen newid enw ar y siec i ddarllen 'DPJ Foundation'.
A letter of thanks was received for the financial donation from Clynfyw Care Farm and a note to change the payee to read 'DPJ Foundation'.
- 6.5 Soniwyd bod dal yna broblem efo'r fan Llyfrgell symudol sy'n ymweld a'r dref, a soniwyd mae'r fan fawr fydd yn ymweld tan ddiwedd mis Mawrth 2019.
There are still problems with the mobile library van that visits the town and it was mentioned that the large van would be visiting till end of March 2019.
- 6.6 Nid oedd hi'n bosibl i PC Christina Fraser, Arolygydd yr Heddlu mynychu cyfarfodydd y Cyngor Tref dros y ddau fis nesaf.
It was not possible for PC Christina Fraser, Police Inspector to attend the Town Council's monthly meeting over the next couple of months.
- 6.7 Coed Nadolig ar gyfer y dre wedi'u archebu.
Christmas trees for the Town had been ordered.
- 6.8 Soniwyd bod y nifer o garafaniau, cerbydau a sbwriel cyffredinol a oedd yng nghornel y mart dal yno, Clerc i atogoffa PCSO John Evans i ymweld â'r perchennog.
It was noticed that the caravans, vehicles and general rubbish was still on the cattle market premises, Clerk to remind PCSO John Evans to visit the property.

7. **CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS**

- 7.1 Cyflog Gweithiwr Strydlun/Street Scene Worker (10/18) £212.82
- 7.2 Cyflog Clerc/ Clerk's Salary (10/18) £259.00
- 7.3 Mynyddoedd Cambrian Mountains £50.00
- 7.4 Praesept (Taliad/Payment 3) £5,833.33
- 7.5 HMRC (TAX/NIC Mis/Month 7) £58.40
- 7.6 RBL Apêl Poppy Appeal £25.00
- 7.7 SWALEC £13.15
- 7.8 Gareth Evans (8 toriad/cuts) £320.00
- 7.9 Balans y banc / Bank balance £40,337.78)
- 7.10 Praesept 2019-20 i'w drafod yn y cyfarfod nesaf / Precept 2019-20 to be discussed in the next meeting.
- 7.11 Bancio ar-lein yn gweithio/On-line banking facility now in place
Cynnig / Proposer: Cyng Catherine Hughes
Eilio / Seconded: Cyng Ann Jones

8. **ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / REPORT FROM THE STREET SCENE WORKER**

Angen presenoldeb y Gweithiwr Strydlun lawr llwybr Rhianfa & Tanffordd. / Street Scene Worker required down the path via Rhianfa & Tanffordd.

9. **CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS**

Dim i'w gofnodi / Nothing to report

10. **CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED**

Dim i'w gofnodi / Nothing to report.

11. **CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**

- 11.1 Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Neil Hinchliffe, Prif Swyddog Stadau yn gofyn am unrhyw sylwadau, arsylwadau o'r Cyngor Tref am unrhyw ddatgan o ddiddordeb yn yr eiddo o'r Ysgol Gynradd Gymunedol. Nid oedd gan y Cyngor Tref diddordeb yn yr adeilad ond byddant yn hoffi gweld rhywun lleol yn cael y cynnig cyntaf.
Letter received from Neil Hinchliffe, Chief Estates Officer requesting any comments or observations from the Town Council or any expressions of interest in the property of the Tregaron CP School. The Town Council does not have any interest in the building but would like it if a local purchaser could have first choice.

CADEIRYDD / CHAIRPERSON

12. **UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES**
Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*
13. **YSGOL HENRY RICHARD SCHOOL**
Gwaith yn parhau ar yr adeilad gan nodi bwriadu agor y gampfa ym mis Rhagfyr 2018.
Work in progress on the building with the intention of opening the gym during December 2018.
14. **PROSIECT CYLCH CARON PROJECT**
Tendrau yn cael eu asesu a chynhelir cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Prosiect ym mis Rhagfyr.
Tenders being assessed and the next meeting of the project board is scheduled in December.
15. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU 2020**
Yn dilyn cyfarfod agored i sefydlu Swyddogion Cronfa Leol penodwyd y canlynol:
Cadeirydd – Cyng Catherine Hughes
Ysgrifennydd – Mr Emyr Lloyd
Trysorydd – Mrs Rhian Jones
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Swyddogion Cronfa Leol Tregaron yn gofyn am gyfraniad tuag at yr Eisteddfod gan nodi dyddiad y digwyddiad cyntaf, sef noson Caws a gwin ac Ocsiwn ar nos Sadwrn 26 o Ionawr 2019 yn Neuadd Goffa Tregaron. Cytunwyd i gyfrannu swm sylweddol tuag at gwobr adran arbennig, Clerc i anfon e-bost i ofyn am rhestr categorïau sydd i dderbyn gwobrau o £500 neu fwy.
Following the original open meeting, local fund officers were elected as follows:
Chairperson – Cllr Catherine Hughes
Secretary – Mr Emyr Lloyd
Treasurer – Mrs Rhian Jones
Letter received from Tregaron Local Fund Officers seeking a donation towards the Eisteddfod and advertising the first fundraiser which will be a Cheese & Wine night with an auction on Saturday 26th January 2019. It was agreed to donate a substantial amount of money towards a certain category, Clerk to make contact requesting a list of categories that receive financial awards of £500 and more.
16. **PROSIECT PWLL NOFIO (TRIP) SWIMMING POOL PROJECT**
Cynlluniau ar gyfer prosiect yr hysbyswrdd digidol a'r pwll nofio yn mynd yn ei flaen ac yn edrych yn addawol iawn. Contractiau rhwng Whilen y Porthmyn a Chyngor Tref Tregaron yn cael eu gwneud ar hyn o bryd. Angen llythyr o gefnogaeth am hysbyswrdd digidol wedi'u hanfon i Swyddfa'r Whilen y Porthmyn.
Plans for the digital notice board and the swimming pool are progressing and looking very favourable. Contracts between Whilen y Porthmyn office and the Town Council in progress. Letter of support needed from the Town Council to the Whilen y Porthmyn in support of the digital notice board.
17. **CYNLLUNIAU LLE / PLACE PLANS**
Clerc i drefnu bod Mr Alan Haird yn mynychu cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref a gynhelir ar nos Wener 14 Rhagfyr 2018 am 7yh i drafod y ffordd ymlaen.
Clerk to arrange for Mr Alan Haird to attend the next meeting of the Town Council which is organised for Friday 14th December 2018 at 7pm to discuss the way forward.
18. **GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE**
18.1 Taflenni i'w cylchredeg i ddeialu 111 mewn achos brys sydd ddim yn bygwth bywyd wedi'u dderbyn oddi wrth GIG Cymru.
Leaflets to distribute to ring 111 in and emergency but not life threatening received from the NHS Wales.
18.2 Taflenni wedi'u dderbyn yn hysbysu 'Diwrnod Hawliau Gofalwyr 2018' a gynhelir ar ddydd Gwener 30 Tachwedd yn Prifysgol Aberystwyth rhwng 10.30yb – 3.30yp.
Leaflets received to advertise 'Carers Rights Day 2018' which is held on Friday 30th November 2018 at Aberystwyth University between 10.30am and 3.30pm.

- 18.3 Manylion wedi'u dderbyn oddi wrth SSE Business Energy, am newidiadau i brisiau trydan - dim gweithrediad.
Information received from SSE Business Energy about 'Electricity Rate Change Advisement' – No action.
- 18.4 Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion yn ein hysbysu bod y grŵp wedi bod yn llwyddiannus mewn derbyn grant o £500 tuag at 'datblygu prosiect iechyd a meddwl cymunedol'. Gofynnir i'r Clerc i gysylltu ganddynt am fwy o wybodaeth ac i drosglwyddo copi o'r llythyr ymlaen i Cyng Rhydian Wilson.
Letter received from Ceredigion Youth Service informing us that they had been successful in obtaining a grant of £500 towards 'developing a community project mental health and wellbeing', clerk to request further details and to forward a copy to Cllr Rhydian Wilson.
- 18.5 Derbyniwyd e-bost oddi wrth cwmni Urban Recreation Ltd, Redwick, Magor yn cynnig gwneud arolwg ar y gwaith oedd angen eu wneud ar parc chwarae Brynheulog. Clerc i gysylltu ganddynt i ofyn iddynt am bris. Cwmni oedd yn gwneud gwaith penodol ar barc Llanddewi Brefi oedd y cwmni.
E-mail received from Urban Recreation Ltd, Redwick, Magor showing an interest in necessary maintenance work in the Children's Park. Clerk to contact them to inspect and send us a written report upon completion of the inspection. This was the company that carried out maintenance/upgrading work on Llanddewi Brefi park.

19. **UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

- 19.1 Pwyllgor y Neuadd wedi derbyn cais o'r Meddygfa, Tregaron i brynu ac arddangos peiriant diffib ar eiddo'r Neuadd, trosglwyddwyd y cais i'r Cyngor Tref ond ni chefnogwyd y cais gan nad oedd y Cyngor Tref yn berchen ar adeilad i ddodi'r peiriant.
Hall committee had received a request from The Surgery to purchase and display a defib machine on the Memorial Hall, request was transferred to the Town Council but this application was refused due to the fact that the Town Council did not own its own building.
- 19.2 Soniwyd bydd adroddiad yr Heddlu ar ddechrau agenda'r cyfarfodydd misol bellach.
It was mentioned that the Police report would be at the beginning of the monthly meetings from now on.
- 19.3 Cynhelir diwrnod agored gan Commissiynydd yr Heddlu ar 4ydd o Ragfyr 2018 yn y Neuadd Goffa a gofynnir i'r Cynghorwyr gefnogi'r diwrnod.
An open day would be held by the Police Commissioner on 4th December 2018 in the Memorial Hall and the Councillors were asked to attend.
- 19.4 Trafodwyd prosiectau Pentir Pumlumon yn ystod y cyfarfod a chytunwyd i wahodd Tanya Friswell, Swyddog Datblygu Cumuned & Twristiaeth, Pentir Pumlumon i gyfarfod mis Ionawr.
Pentir Pumlumon projects were discussed during the meeting and it was agreed that we would invite Tanya Friswell, Community & Tourism Development Officer to the January meeting.
- 19.5 Soniwyd am y car oedd yn parcio ar y palmant yn Penrodyn, gofynnir i'r Clerc gysylltu efo Adran y Priffyrdd, Cyngor Sir Ceredigion a'r heddlu.
It was brought to our attention that a car was parking on the pavement in Penrodyn, Clerk to notify Highways Department Ceredigion County Council along with the Police.

TERFYNWYD Y PWYLLGOR / MEETING WAS CLOSED

CADEIRYDD / CHAIRPERSON